Site Stakeholder Group

**Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol o Gyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa ar 26.3.26**

1. Adroddodd y Cadeirydd ar y digwyddiadau y mae wedi bod ynddynt ers cyfarfod diwethaf Grŵp Rhanddeiliaid y Safle ym mis Hydref 2025.

2. Cyflwynodd Stuart Law Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ddatblygiadau ar y safle.

3. Adroddiad y Swyddfa Reoleiddio Niwclear (ONR) - Cyflwynodd Peter Hughes ei adroddiad ar gyfer y cyfnod 1 Gorffennaf – 31 Rhagfyr 2025

4. Cyflwynodd Richard Lee adroddiad diweddaru ar y cyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd.

5. Ni chodwyd unrhyw gwestiynau yn ystod y Fforwm Holi ac Ateb

Site Stakeholder Group

# Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa
# Dydd Iau 26 Mawrth 2026, Safle Wylfa NRS Cemaes Ynys Môn
# (Ar-lein dros Teams)

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Y Cyng Aled M Jones | Cyngor Sir Ynys Môn, Ward Twrcelyn a Chadeirydd y Grŵp |
| D Stuart Law | Cyfarwyddwr y Safle, NRS |
| Y Cyng G O Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng Derek Owen | Cyngor Sir Ynys Môn (Is-gadeirydd) |
| Y Cyng Ken Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng Gordon Warren | Cyngor Tref Amlwch |
| Y Cyng Liz Wood | Cyngor Tref Amlwch |
| Mark Elsworth | NRS |
| Richard Lee | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| David Wilby | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| Cath Pritchard | Ysgrifenyddiaeth SSG NRS |
| Elin P. Jones | Arweinydd Cyfathrebu a Materion Economaidd-gymdeithasol NRS |
| Mair Jones | Arweinydd Materion Economaidd-Gymdeithasol NRS |
| Peter Hughes | ONR |
| Richard Jones | EET Rhanbarth Gogledd Cymru |
| Michelle Humphreys | NRS |
| Virginia Crosbie | Partner yn Nuclear Capital LLP |
| Jonathon Holland | Arweinydd yn Rheoliadau (Parodrwydd a Gwybodaeth Gyhoeddus) Argyfyngau Ymbelydrol (REPPIR), Cynllunio Argyfwng |
| Gwen Thomas | Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr |

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Manon Cadwaladr | Cyfieithydd - Cymen |
| Sydna Roberts | Cofnodydd - Cymen |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Y Cyng Gwilym Morris | Cyngor Cymuned Rhosybol |
| Y Cyng Gareth W Roberts | Cyngor Tref Amlwch |
| Iwan Williams | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| John Madden | Asiantaeth yr Amgylchedd |
| Enid Jones | Merched y Wawr |
| Rhun ap Iorwerth | Aelod o'r Senedd |
| Bill Hamilton | Cyfarwyddwr Materion Allanol - NRS |
| Llinos Medi | Aelod Seneddol Ynys Môn |

**1 Croeso a Derbyn Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod. Croesawodd Michelle Humphreys NRS i'w chyfarfod olaf o'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle a dymunodd yn dda iddi yn y dyfodol.

**2. Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16.10. 25.**

Cafodd cofnodion y cyfarfod ar 16.10.25 eu cyflwyno a'u derbyn fel cofnod cywir. (GOJ/KH)

**3 Materion a Godwyd o'r Cofnodion Blaenorol**

Ni chodwyd unrhyw fater.

**4 Adroddiad Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid y Safle**

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad byr ar weithgarwch blaenorol, fel a ganlyn:

- Cyfnod prysur wrth i'r adolygiad o grwpiau SSG symud tuag at weithredu, gan gynnwys cyfarfodydd un-i-un rhwng Cadeiryddion SSG a'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA). Mae cadeiryddion pob safle yn NRS wedi cael diweddariad ariannol gan Rob Fletcher ym mis Rhagfyr.
- Mae'r NDA wedi nodi na fydd yr NDA yn bresennol ym mhob cyfarfod o'r SSG yn y dyfodol.
- Cyfarfod i'w gynnal ym mis Mehefin rhwng holl Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion Grŵp Rhanddeiliaid y Safle ym Manceinion. Bydd Prif Weithredwr yr NDA a Chadeirydd NRS Sellafield yn bresennol.

**5 Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa**

Cyflwynodd SL adroddiad cynhwysfawr a grynhoir fel a ganlyn: -

**Canolbwyntio ar Ddiogelwch**

2,814 diwrnod ers anaf colli amser o 24 Mawrth 2026 ymlaen

• Cyfradd cyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.00

• Cyfradd achosion diwrnodau i ffwrdd (DACR): 0.00

**Ein pobl**

**Nifer ar y Safle**

| | |
|---|---|
| NRS (gan gynnwys prentisiaid) | 183 |
| Swyddogaethau Cefnogaeth Ganolog | 77 |
| Gweithwyr asiantaeth | 5 |
| Cyfanswm | 265 |

Ar hyn o bryd mae saith prentis yn cael hyfforddiant ar y safle mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau, gan gynnwys Trydanol, Mecanyddol, Rheoli a Chynnal a Chadw Offer, Gwastraff a Diogelu rhag Ymbelydredd, gyda phrentis Gwastraff ychwanegol yn dechrau fis Medi 2026

**Tîm Wylfa Un**

- Ymadawyr MAVE, sef y broses wirfoddol y mae'r ddwy ochr wedi cytuno arni. Daeth saith cais i law a derbyniwyd 6 a fydd yn gadael erbyn 31.3.26.
- Yn ddiweddar dathlwyd cyfanswm o 670 mlynedd o ymrwymiad i swyddi drwy'r Gwobrau Gwasanaeth Hir.

**Cefnogi gweithlu Wylfa**

- Cyfleoedd datblygu gyrfa, mae'r rhain yn cynnwys cyrsiau Prifysgol Bangor.
- Hyrwyddo cynaliadwyedd, STEM a mentrau Iechyd Meddwl ar y cyd ag amrywiol grwpiau rhwydwaith ar draws y cwmni

**Targedau a gyflawnwyd 2025-6**

- C1 - System Droshaen Drydanol (DAR4.2)
- C2 - Awyrell Llestr - Cam 1 (Cau lawr ar uned Munters)
- C3 - Gosod system dŵr domestig newydd (wedi'i chomisiynu'n llawn) - lleihau legionella ond bydd y profion yn parhau
- C3 - Uwchraddio systemau diogelwch (cafwyd dyluniad manwl)

**Newyddion Diweddaraf am y Safle**

Cynnydd hyd yma ar y system droshaen drydanol

- Prosiect EOS yn cyrraedd carreg filltir allweddol wrth i UKPNS baratoi i ddechrau ar waith sifil ar y safle.
- Y prosiect yn symud o'r cam cynllunio i'r cam cyflawni gweithredol.

Y cam nesaf:

- Creu llwybr newydd ar gyfer ceblau ar draws y safle.
- Dechrau cloddio ôl troed yr is-orsaf 11kV.

Edrych i'r dyfodol

- Bydd system 11kV newydd yn disodli'r hen gyflenwad 132kV, gan wella diogelwch, effeithlonrwydd a dibynadwyedd.
- Galluogi ynysu Neuadd y Tyrbin yn llwyr a chefnogi cynnydd parhaus o ran datgomisiynu. • Mae'n gosod Wylfa ar gyfer cam nesaf ei daith ddatgomisiynu.

**Cynnydd DSC4 hyd yn hyn**

- Dechreuodd y cylch concrit rhwng y Bae Cynnal a Chadw Peiriannau Tanwydd a D4F5.
- Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar greu ffordd fynediad newydd i bobl drwy'r wal goncrid wedi'i hatgyfnerthu.

Y cam nesaf

- Gorffen gosod y cylch a chreu agoriad llawn y drws.
- Paratoi'r llwybr mynediad newydd i'w ddefnyddio'n ddiogel yn ystod gweithrediadau.

Edrych i'r dyfodol

- Bydd y ffordd fynediad newydd yn cael gwared â'r angen i ddefnyddio ysgolion fertigol yn yr ardal hon.
- Bydd hyn yn gwella diogelwch, hwylustod symud, ac effeithlonrwydd cyffredinol yn ystod y cam gweithredu

**Monitro deunyddiau sgaffaldiau**

Y cynnydd hyd yma:

- Mae Wylfa wedi ail-bwrpasu dros gan tunnell o ddeunyddiau sgaffaldiau o adeiladau'r adweithyddion gan ddefnyddio monitor deunyddiau arbenigol.
- Mae archwiliadau a gwblhawyd dros 18 mis yn cynnwys:
    - 10 tunnell a mwy o ffitiadau
    - 70 tunnell a mwy o waith dur
    - 40 tunnell a mwy o fyrddau sgaffaldau

Dyma'r canlyniadau hyd yn hyn:

- 60 tunnell o waith dur wedi'i ailgylchu a'i ailddefnyddio ar y safle
- 30 tunnell o fyrddau sgaffaldau wedi'u hailddefnyddio
- lleihau costau torri gwastraff a chefnogi nodau cynaliadwyedd y safle.

Y camau nesaf

- Parhau i asesu deunyddiau drwy'r monitor er mwyn eu hailddefnyddio a'u hailgylchu'n ddiogel.
- Rhannu'r hyn a ddysgwyd â safleoedd eraill sydd â diddordeb mewn mabwysiadu'r un dull.

Edrych i'r dyfodol

- Bydd y monitor deunyddiau'n parhau i weithredu, gan helpu i wreiddio arferion cynaliadwy a chost-effeithiol

**Cynaliadwyedd**

Menter plannu coed

- Mae Wylfa wedi lansio ei ymgyrch Plannu Coed, gan gynnig coed ifanc brodorol a choed ffrwythau ifanc am ddim i staff a chontractwyr. Y nod yw hybu bioamrywiaeth, cefnogi ecosystemau lleol ac annog gweithredu amgylcheddol cadarnhaol. Casglwyd dros dri chant o goed ifanc, a rhannwyd llawer ohonynt ag ysgolion a grwpiau cymunedol. Mae'r defnydd cryf yn adlewyrchu ymrwymiad y tîm i gynaliadwyedd a stiwardiaeth amgylcheddol gan y bydd pob coeden a fydd yn cael ei phlannu yn cefnogi bywyd gwyllt, aer glanach a mannau cymunedol gwyrddach. Mae'r ymgyrch hefyd yn cefnogi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru o ran ehangu coetiroedd ar gyfer 2030.

Adleoli tegeirian y wenynen

- Mae tîm Wylfa Un wedi symud tegeirianau'r Wenynen sydd wedi'u gwarchod yn ddiogel a ganfuwyd yn ystod arolygon cynnar o'r System Droshaen Drydanol. Datblygodd arbenigwyr amgylcheddol a thîm y prosiect gynllun adleoli er mwyn osgoi tarfu ar y gwaith adeiladu sydd ar y gweill. Roedd cynllunio cynnar gofalus yn ei gwneud yn bosibl cynnwys y gwaith o symud yn ddi-dor yn y rhaglen, a bydd cynnydd yn cael ei olrhain yn y misoedd i ddod. Mae'r gwaith hwn yn tynnu sylw at ymrwymiad Wylfa i wreiddio cynaliadwyedd a diogelu'r amgylchedd wrth gyflawni'r prosiect. Mae'r adleoli'n cyfrannu at etifeddiaeth amgylcheddol hirdymor Wylfa.

**STEM**

- Croesawodd Wylfa fyfyrwyr o Ysgol Brynrefail, Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgol Gyfun Llangefni, ac Ysgol Syr Thomas Jones, gan roi cyfle unigryw i ystyried yr amrywiaeth eang o yrfaoedd sydd ar gael yn y sector niwclear. Roedd hyn yn galluogi myfyrwyr i glywed straeon gyrfa go iawn gan bobl sy'n gweithio ar y safle, gan gefnogi ymrwymiad Wylfa i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o dalent STEM yng Ngogledd Cymru. Nododd SL hefyd fanteision myfyrwyr ysgol yn gallu gweithio gyda phobl o'u hoedran eu hunain. Mae'r tîm Gyrfaoedd Cynnar wedi mynd i ffeiriau gyrfaoedd, gan rannu eu profiadau uniongyrchol gyda myfyrwyr a phobl ifanc sy'n gadael yr ysgol - gan helpu i dynnu sylw at fanteision prentisiaethau, gan gynnwys y cyfle i ennill cyflog wrth ddysgu.

**Meysydd i'w gwella**

Mae cyrydiad mewn strwythurau penodol wedi arwain at ddirywiad amlwg mewn peiriannau a methiannau offer. Serch hynny, bydd mwy o fonitro a rheoli diffygion ac asedau'n effeithiol yn helpu i flaenoriaethu gwaith atgyweirio neu symud, yn ôl yr angen.

**Cynllun economaidd-gymdeithasol Gwasanaethau Adfer Niwclear (NRS) 2025-26**
**Cynlluniau Cymydog Da**

Diweddarwyd yr aelodau ar y grantiau a gymeradwywyd fel a ganlyn:

- Cyngor Cymuned Rhosybol - £2,600 i ddigwyddiadau coffa Diwrnod VE a VJ; tua 1,000 o bobl yn bresennol; defnydd cryf o fusnesau lleol.
- Hyfforddiant Parys - £1,000 i gefnogi ailddatblygu adeilad Teyrnas Gopr yn unedau i fusnesau bach.
- Tîm pêl-droed dan 10 Bodedern - £900 ar gyfer cyfarpar a chit hyfforddi i hyrwyddo cydraddoldeb, undod a chwaraeon ieuenctid dwyieithog.
- Clwb Pêl-droed Iau Llannerchymedd - £900 ar gyfer cit pêl-droed sy'n cefnogi mynediad cyfartal a hunaniaeth tîm i chwaraewyr ifanc.
- Cyngor Cymuned Llanfechell - £1,000 i gynnal cloddfa archaeolegol, gan ddod â'r gymuned at ei gilydd a dathlu treftadaeth leol.
- Cyfansymiau cyllido: £6,400

Edrych i'r dyfodol:
Bydd y cyfnod ymgeisio nesaf yn agor fis Ebrill 2026.

Mathau eraill o gymorth

- Derbyniodd Cyngor Cymuned Llanbadrig £10,000 o gyllid NRS i gefnogi prosiect gwerth £214,000 sydd â'r nod o wella caeau chwarae Cemaes a chreu man chwarae cynhwysol a chynaliadwy, yn ogystal ag Ardal Gemau Aml-ddefnydd sydd ar gael i bawb.

  - Wrth i Ynys Môn baratoi i gynnal Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn 2026 ym mis Mai, mae prosiect STEM dwyieithog newydd yn dod â gwyddoniaeth, creadigrwydd a diwylliant at ei gilydd ar gyfer disgyblion ledled yr ynys. Gydag £20,000 o gyllid NRS, bydd yr Urdd, ar y cyd â Sbarduno a Menter Môn, yn

cyflwyno rhaglen o weithdai STEM dwyieithog uniongyrchol gyda dros ugain o ysgolion lleol. Bydd y gweithdai'n archwilio ac yn addysgu'r drefn lliw gwyddonol a bydd y disgyblion yn cynhyrchu cân enfys Gymraeg newydd.

Cyngor Sir Ynys Môn, Cynllun Adfywio Gogledd Ynys Môn -

- £351k o fuddsoddiad NDA (a reolir gan NRS) wedi denu £8m o Fargen Twf Uchelgais Gogledd Cymru.
- Mae'n cefnogi'r gwaith o ddarparu adeiladau masnachol newydd ac yn cynhyrchu amcangyfrif o £20m mewn gwerth economaidd a chymdeithasol.
- Bydd adnewyddu terfynfeydd morol yn creu gofod masnachol o ansawdd uchel a chyfleusterau gwell, gan adfywio glannau'r môr.
- Bydd deg uned fusnes newydd yn Amlwch yn cryfhau gwasanaethau lleol ac yn cefnogi mentrau sy'n canolbwyntio ar y gymuned.

Atgoffwyd yr aelodau i gysylltu â Mair Jones neu Elin Parry Jones (lefel cymydog da) ynghylch ceisiadau, manylion yn www.gov.uk/government/collections/nrs-working-with-our-communities.

Diolchodd y Cadeirydd i SL am ei adroddiad cynhwysfawr a dywedodd fod llawer o negeseuon cadarnhaol i'w nodi, yn enwedig ynghylch cefnogaeth staff, cyfleoedd i fyfyrwyr ifanc yr Ynys a chefnogaeth gymunedol gadarnhaol.

**Sesiwn Holi ac Ateb**

Holodd DO a oedd unrhyw adeilad arall yn parhau i fod ym mherchnogaeth NRS. Nododd SL fod trafodaethau'n mynd rhagddynt ynghylch rhannu adeiladau/eiddo.
Cyfeiriodd DO at y difrod gan stormydd yng Ngerddi Cestyll. Dywedodd SL ei fod yn ymwybodol o'r difrod a bod yr NDA yn gwneud gwaith adfer. Bydd adroddiad datblygu'n cael ei rannu yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Rhanddeiliaid y Safle.

Canmolwyd y gwaith a wnaed i gefnogi myfyrwyr ysgol uwchradd gan VC. Nododd SL y bydd Ffion Morris, Rheolwr Peirianneg yn parhau i gefnogi'r cynlluniau myfyrwyr.

Dywedodd SL y gall pobl wneud cais am Gyllid Economaidd-Gymdeithasol drwy borth agored sy'n cael ei hysbysebu'n gyhoeddus. Mae staff perthnasol ar gael i gynnig cymorth ac arweiniad i gwblhau ceisiadau ar gais. Dywedodd SL nad yw'r NRS yn gweithredu cyfrif Facebook ar hyn o bryd, ond mae hyn yn cael ei adolygu.

6. **Diweddariad Corfforaethol NRS–** Cydnabu'r Cadeirydd fod Mr Bill Hamilton, sef Cyfarwyddwr Materion Allanol wedi bod yn bresennol yn y Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa ers sawl blwyddyn a'i fod hefyd wedi bod yn mynd i ddigwyddiadau cymunedol lleol ar ran NRS. Mae Mr Hamilton yn gadael yr NRS ac, yn ei absenoldeb, diolchodd y Cadeirydd iddo am ei ymroddiad a dywedodd y bydd yr SSG yn ysgrifennu ato'n ffurfiol i ddymuno'n dda iddo yn y dyfodol.

7 **Diweddariad gan Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR)**

Cyflwynodd Peter Hughes ei adroddiad rhwng 1 Gorffennaf a 31 Rhagfyr 2025, a oedd eisoes wedi cael ei ddosbarthu gyda deunyddiau'r cyfarfod. Soniodd am ei benodiad fel Arolygydd Safle dynodedig ar gyfer lleoliadau Wylfa a Thrawsfynydd.

Aeth arolygwyr safle ONR i Wylfa ar y dyddiadau canlynol:-
2 Gorffennaf
24 Medi
15, 16 a 30 Hydref
Dywedodd fod Arolygiad Legionella a Diogelwch yn cael ei ystyried yn ddigonol.

**Sesiwn Holi ac Ateb** - ni chodwyd unrhyw fater

Diolchodd y Cadeirydd i PH am ei ddiweddariad.

**8 Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd**

Cyflwynodd Richard Lee adroddiad ar y cyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd rhwng mis Hydref 2025 a mis Chwefror 2026, gan nodi nad oedd unrhyw bryderon penodol yn ystod yr amserlen hon.

**Sesiwn Holi ac Ateb –** ni chodwyd unrhyw fater.

**9 Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored –** ni chodwyd unrhyw gwestiynau ychwanegol gan gyfranogwyr.

**10.**

**Unrhyw Fater Arall**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am 14.48

**Dyddiadau'r Cyfarfod Nesaf - 15 Hydref 2026 wyneb yn wyneb**

Arwyddwyd ……………………
Y Cyng Aled M Jones, Cadeirydd